

**Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd
Dydd Gwener 28 Mehefin 2019 10:00 – 13:00
Ystafell Gyfarfod 1 Banc Datblygu Cymru, Caerdydd**

Cofnodion y Cyfarfod

Yn bresennol:

Jon Sparkes
Peter Mackie
Katie Dalton

Prif Weithredwr Crisis (Cadeirydd)
Uwch-ddarlithydd, Prifysgol Caerdydd
Cyfarwyddwr Cymorth Cymru

John Puzey
Tamsin Stirling
Naomi Alleyne

Prif Weithredwr Shelter Cymru
Arbenigwr Tai Llawrydd
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai
CLILC

Lindsay Cordery-Bruce
Frances Beecher
Bonnie Navarra

Prif Weithredwr The Wallich
Prif Weithredwr Llamau (am yr awr gyntaf)
Arweinydd Ysgogi Newid, Swyddfa Cenedlaethau'r
Dyfodol

Glynne Roberts
Clare Budden

Rheolwr Rhaglenni BIP Betsi Cadwaladr
Prif Swyddog Gweithredol Cymdeithas Tai Clwyd
Alyn

Clarissa Corbisiero
Nick Morris
Emma Williams

Cyfarwyddwr Polisi Cartrefi Cymunedol Cymru
Rheolwr Polisi a Chyfathrebu Crisis
Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Polisi Tai,
Llywodraeth Cymru

Sarah Rhodes
Mark Price

Pennaeth Digartrefedd, Llywodraeth Cymru
Arweinydd Prosiect, Llywodraeth Cymru

Ymddiheuriadau:

Dim

- Croesawodd JS bawb i'r cyfarfod cyntaf. Nododd fod pawb yn cyfrannu arbenigedd a phrofiad i'r cyfarfodydd hyn ac y bydd y grŵp yn anelu at weithio'n gyflym i gyflwyno cyfres o argymhellion mewn adroddiad i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol erbyn diwedd mis Mawrth 2020. Nododd JS ei fod yn bwriadu cyhoeddi blog o bob cyfarfod tua 24/48 awr ar ôl i'r cyfarfod ddod i ben er mwyn sicrhau bod y gwaith yn mynd rhagddo'n ddi-ball ac er mwyn ymgysylltu â grŵp ehangach o randdeiliaid na'r rhai o amgylch y bwrdd.
- Atgoffwyd y grŵp bod pedwar prif gwestiwn y sefydlwyd y grŵp hwn i'w hateb:
 1. Pa fframwaith o bolisiau, dulliau gweithredu a chynlluniau sydd ei angen i ddod â digartrefedd i ben yng Nghymru?

2. Pa gamau y gallwn eu cymryd ar unwaith i leihau nifer yr achosion o gysgu allan rhwng nawr a gaeaf 2019/20, ac i roi diwedd ar gysgu allan yn gyfan gwbl?
 3. Sut y gallwn sicrhau bod y broses o ailgartrefu pobl yn gyflym ac yn barhaol wrth wraidd y gwaith o atal, trechu a dod â digartrefedd i ben?
 4. Sut y gallwn sicrhau bod partneriaethau a chynlluniau cydgysylltiedig lleol yn cael eu rhoi ar waith er mwyn atal, trechu a dod â digartrefedd i ben ledled Cymru?
- Dywedodd EW fod y Gweinidog yn awyddus iawn i weld gweithredu ar lawr gwlad a'i bod yn barod i fod yn ddewr ac yn feiddgar. Mae'r Gweinidog am weld strategaeth gryno a phwrpasol sy'n nodi'n glir yr hyn rydym yn ei wneud. Dywedodd EW, er nad oes gan y gweithgor hwn gyllideb benodol gan Lywodraeth Cymru, efallai y byddai modd cael gafael ar rai adnoddau pe bai angen. Ychwanegodd EW fod digartrefedd yn fater gwasanaeth cyhoeddus ac nid dim ond mater tai - bwriedir gofyn i Brif Weithredwyr BILlau, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac eraill fod yn rhan o'r gwaith.
 - Ychwanegodd y gall ofyn i gyfarwyddiaethau eraill yn Llywodraeth Cymru (e.e. addysg, polisïau ieuencid) roi cyflwyniad i'r grŵp am eu meysydd polisi pe bai hynny'n berthnasol ac yn ddefnyddiol. Cytunodd y grŵp y byddai'n ddefnyddiol deall strwythurau Llywodraeth Cymru yn well ac felly cytunodd EW i roi cyflwyniad hanner awr i'r grŵp yn y cyfarfod nesaf. **Cam Gweithredu – EW**
 - Cytunwyd ar gylich gorchwyl y grŵp ond nodwyd hefyd y dylai gynnwys y gallu i arddangos a phrofi atebion arloesol hefyd. Caiff dogfen y cylch gorchwyl ei diweddarau i adlewyrchu hyn. **Cam Gweithredu – MP**
 - Cafodd y grŵp drafodaeth am enw'r grŵp a ph'un a ddylai newid ai peidio, a pha hashnod y dylid ei ddefnyddio. Nodyn ôl-gyfarfod: defnyddiwyd yr hashnod Saesneg [#homelessnessactiongroup](#) gan JS yn ei flog cyntaf.
 - Cytunodd y grŵp i ystyried y ddau gwestiwn cyntaf gyda'i gilydd i ddechrau. Cafwyd trafodaeth, lle y cytunodd y grŵp ar y canlynol:
 - mae angen ystyried gyda phwy arall y bydd angen inni weithio er mwyn adlewyrchu safbwyntiau pobl sydd â phrofiad uniongyrchol mewn ffordd gredadwy;
 - mae angen hefyd inni fynd ati i gofnodi mewnbwn staff rheng flaen sy'n delio â digartrefedd;
 - mae angen hefyd ystyried rhanddeiliaid perthnasol eraill (y tu allan i faes tai) a llunio cynllun i ymgysylltu a chytuno â nhw mewn ffordd ystyrllon;
 - yn ail, dylem ymgysylltu â'r arweinwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau sy'n gyfrifol am gyllid (e.e. Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, BILlau) er mwyn dylanwadu arnynt erbyn inni gyrraedd y cam cyflawni;
 - mae angen nodi'n union gyda phwy rydym yn siarad a phryd (e.e. bydd angen mwy o ymgysylltu rheolaidd â rhai pobl/grwpiau ac ar adegau gwahanol yn y prosiect).

- Bydd is-grŵp o LC, FB a KD yn ystyried y materion hyn ac yn cyflwyno'r canfyddiadau/ymchwil yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Gweithredu. **Cam Gweithredu – LC, FB a KD (is-grŵp 1)**
- Nododd y grŵp fod tystiolaeth a gwybodaeth eisoes yn bodoli (e.e. ymchwil Shelter Cymru) y gellir eu defnyddio er mwyn ein helpu i ddeall ac ymgysylltu. Bydd is-grŵp yn ystyried ac yn mapio'r holl dystiolaeth sy'n bodoli eisoes er mwyn sicrhau nad ydym yn ailadrodd ymchwil a wnaed eisoes, gan gynnwys sut rydym yn defnyddio deunydd sy'n bodoli eisoes ac yna'n nodi'r bylchau, er mwyn drafftio fframwaith "cwestiwn dechreuol" yn barod ar gyfer y cyfarfod nesaf. Gan adeiladu ar gyflwyniad PM, bydd yr is-grŵp hefyd yn ystyried sut y gallwn ddadansoddi data ar ddiartrefedd mynych yn well er mwyn deall ein llinell sylfaen a hefyd gynnwys ffynonellau eraill o ddata fel y bo'n gymwys, e.e. data gan garchardai; ac ystyried y pwerau a'r ysgogiadau sydd gennym eisoes, y gellir eu defnyddio ar gyfer darpariaeth digartrefedd a mapio'r rhain yn erbyn yr hyn nad yw wedi'i ddatganoli **Cam Gweithredu JS, PM a TS (is-grŵp 2)**
- O ran cwestiwn 2 yn benodol, nododd y grŵp y bydd angen comisiynu atebion hirdymor i roi terfyn ar ddiartrefedd a hefyd ddarpariaeth ar sail trawma (gan gynnwys lle mae'r ddarpariaeth bresennol o lety wedi'i lleoli ar hyn o bryd) a sut beth ydyw. Bydd angen cymryd camau gweithredu ar wahân er mwyn sicrhau bod atebion byrdymor ar waith i leihau cysgu allan y gaeaf hwn, a fydd yn gam tuag at atebion yn y tymor hwy.
- O ran y diffiniad o leihau cysgu allan erbyn y gaeaf hwn, bydd y grŵp yn ystyried strategaethau "gwely am noson" a hefyd "oddi ar y strydoedd yn ystod y dydd" ar yr un pryd.
- Cytunwyd y dylid cyhoeddi gwaith y Grŵp Gweithredu ar wefan Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod pob rhanddeiliad yn cael yr holl wybodaeth ac yn dangos diddordeb wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y ffordd orau o gyflawni hyn. **Cam Gweithredu – MP**
- Cafwyd trafodaeth hefyd ar y ffordd orau o rannu dogfennaeth a chydgysylltu mewn ffordd fwy electronig (e.e. defnyddio system rheoli cofnodion electronig) o ran gwaith y Grŵp hwn. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried hyn hefyd. **Cam Gweithredu – MP**
- Cadarnhaodd JS y bydd yn blogio ar ôl pob cyfarfod a gofynnwyd i'r aelodau eraill ddefnyddio eu llwyfannau cyfryngau cymdeithasol eu hunain i raeadru neges glir a chyson (yn dilyn blog JS). **Cam Gweithredu – Pawb**
- Caiff canfyddiadau/ymchwil gychwynnol eu dosbarthu i bob aelod cyn y cyfarfod nesaf [19 Gorffennaf] er mwyn i bob aelod gael cyfle i'w darllen a'u hystyried a bod yn barod i wneud sylwadau yn y cyfarfod nesaf. Bydd y ddau is-grŵp yn cyflwyno papurau perthnasol i MP i'w hanfon cyn y cyfarfod nesaf. **Cam Gweithredu – Is-grŵp 1, Is-grŵp 2**

Crynodeb o'r Camau Gweithredu

SWYDDOGOL SENSITIF

Rhif	Cam Gweithredu	Yn arwain
1	Cyflwyniad ar strwythurau Llywodraeth Cymru (hanner awr) yn y cyfarfod nesaf	EW
2	Diweddarau dogfen y cylch gorchwyl i gynnwys yr angen i arddangos a phrofi atebion arloesol.	MP
3	Is-grŵp 1 i gyflwyno canfyddiadau cychwynnol yn y cyfarfod nesaf	Is-grŵp 1 - LC, FB a KD
4	Is-grŵp 2 i gyflwyno canfyddiadau cychwynnol yn y cyfarfod nesaf	Is-grŵp 2 – JS, PM a TS
5	Ymchwilio i fan ar wefan Llywodraeth Cymru i roi cyhoeddusrwydd i waith y grŵp	MP
6	Ymchwilio i'r ffordd y gall y grŵp rannu gwybodaeth yn well a chydgysylltu mewn ffordd fwy electronig	MP
7	Yn dilyn blog ôl-gyfarfod JS, bydd aelodau eraill yn defnyddio eu llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i raeadru neges glir a chyson	Pawb
8	Is-grwpiau 1 a 2 i anfon canfyddiadau cychwynnol ymlaen at MP i'w dosbarthu i aelodau'r grŵp (ynghyd â'r agenda, dogfennau ac ati) cyn dyddiad y cyfarfod nesaf	Is-grŵp 1 Is-grŵp 2